Gormod o Fechgyn yn y Teulu?

1. Beth yw'r tebygolrwydd y bydd babi'n cael ei eni'n fachgen?
2. Os oes gan Mr a Mrs Stevens 3 o fechgyn yn barod, a yw hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn cael merch os byddant yn cael pedwerydd plentyn?
3. Os oes gan Mr a Mrs Suker 2 o blant beth yw'r tebygolrwydd y byddant yn cael 2 fachgen?
4. A yw'n uwch, yn is neu'r un fath â'r tebygolrwydd y byddant yn cael 1 bachgen ac 1 merch?
5. Os byddant yn cael trydydd plentyn, beth yw'r tebygolrwydd nawr? Pa mor debygol ydyw y byddant yn cael 3 bachgen?
6. Allwch chi gyfrifo'r tebygolrwydd y bydd teulu'n cael 8 o blant a phob un ohonynt yn fechgyn?
7. Beth sydd fwyaf tebygol: 3 bachgen mewn teulu o 3 o blant neu 2 ferch a 3 bachgen mewn teulu o 5 o blant?

Defnyddiwch y data isod, o CensusAtSchool, a'i gymharu â'r tebygolrwydd damcaniaethol ar gyfer cyfuniadau gwahanol o fechgyn a merched mewn teuluoedd. Allwch chi ddangos hyn mewn ffordd ddiddorol neu ddarluniadol?

Nifer y plant mewn teulu	Nifer y teuluoedd	0 Bechgyn	1 Bachgen	2 Bachgen	3 Bachgen	4 Bachgen	5 Bachgen
1	9962	5250	4712				
2	27782	6688	14814	6280			
3	14264	1788	5266	5275	1935		
4	4765	332	1118	1760	1172	383	
5	1436	59	236	422	422	227	70